Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Dolgellau
# Festri Capel Tabernacl
# Ffordd y Capel
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 1SD

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**


**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:
**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Dolgellau yn lleoliad meithrin cofrestredig sy’n cyfarfod yn Festri Capel Tabernacl, sydd yn nhref Dolgellau. Mae’n darparu addysg cyn-ysgol i blant y drefn a’r ardal wledig o’i chwmpas.

Mae’r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i’r sesiynau. Roedd ychydig o plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad yn ystod yr arolygiad. Nid oedd yr un plentyn o dras ethnig yn y lleolaid. Mae oddeutu 40% y plant gyda Chymraeg yn brif iaith y cartref.

Mae’r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore’r wythnos ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed. Mae mwyafrif y plant yn mynychu’r lleoliad yn y boreau. Mae 58 o blant wedi’u cofrestru yn y lleoliad ac mae un deg pedwar o blant tair oed yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. .

Mae plant yn cael eu haddysgu gan ddau arweinydd a thri ymarferydd ac maent wedi’u cymhwyso’n briodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2013 a chan Estyn yn Hydref 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac ymholgar;
- medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn dda;
- agweddau'r holl blant tuag at gadw'n iach a diogel yn gadarnhaol iawn;
- safonau ymddygiad yn dda gyda bron pob plentyn yn gwrtais ac yn ystyriol o deimladau plant eraill;
- profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau yr holl blant;
- addysgu medrus yn sicrhau bod plant yn weithredol yn eu dysgu;
- gwybodaeth asesu'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer cynllunio i'r dyfodol;
- egwyddorion a gwerthoedd clir yn cael eu hyrwyddo'n gyson; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i bob plentyn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad;
- ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn;
- hunan-arfarnu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella safonau a darpariaeth;
- nifer o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant;
- staff ac adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo dysgu plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Codi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
2. Rhoi gwell cyfleoedd i blant ddysgu am draddodiadau a diwylliannol eraill.
3. Sicrhau bod llais a barn plant yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi'n rheolaidd.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn unol â'u gallu a lefel eu haeddfedrwydd, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae llawer yn ddysgwyr hyderus ac ymholgar, sy'n chwilio am atebion ac yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau newydd. Yn ystod y ddarpariaeth barhaus, mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu ac yn fodlon mentro wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau.

Mae medrau llythrennedd plant yn datblygu'n dda gyda'r rhan fwyaf yn hapus i sgwrsio â'u cyfoedion ac oedolion cyfarwydd yn y lleoliad. Yn ystod sesiynau torfol, mae'r plant mwyaf aeddfed yn gwrando ar blant ac oedolion eraill ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau. Wrth iddynt chwarae rôl yn siop y dosbarth neu yn y tŷ bach twt, mae llawer o'r plant, yn arbennig merched, yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r sefyllfa. Mae'r rhan fwyaf yn troi o'u gwirfodd at lyfrau gyda llawer ohonynt yn ymddwyn fel darllenwyr. Mae bron pob plentyn yn gallu adnabod ei dod o hyd i'w enw wrth hunan-gofrestru ac yn adnabod llythrennau unigol. Trwy arbrofi gyda gwahanol gyfryngau ar gyfer gwneud marciau, mae llawer o blant gyda dealltwriaeth addas o wahanol bwrpasau ysgrifennu gyda lleiafrif wedi cychwyn ysgrifennu llythrennau cyfarwydd yn annibynnol.

Mae bron pob plentyn yn ymateb yn frwdfrydig i weithgareddau rhifedd ac yn ymuno mewn rhigymau a chaneuon rhif syml fel rhan o arferion dyddiol y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o rifau wrth chwarae. Er enghraifft, wrth i blant arbrofi gyda chydbwyso tedis ar glorian dônt i ddeall bod tynnu un tedi oddi ar y glorian yn gwneud cyfanswm y tedis sydd ar ôl, yn llai. Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth dda o gysyniadau mathemategol megis maint, patrwm a siâp.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n briodol. Mae llawer yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn hyderus ac yn fedrus iawn wrth fwydo cyfarwyddiadau i grwban llawr. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r plant yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau TGCh wrth iddynt symud trwy'r lleoliad.

Mae bron pob plentyn sy'n dysgu Cymraeg yn adeiladu ar eu medru yn yr iaith yn systematig. Maent yn deall llawer mwy nag y maent yn ei siarad ac yn ymateb yn gadarnhaol iawn i gyfarwyddiadau oedolion.

**Lles: Da**

Mae agweddau'r holl blant tuag at gadw'n iach a diogel yn gadarnhaol iawn. Maent yn deall bod bwyta'n iach yn ystod byrbrydau, ac ymarfer corfforol rheolaidd yn llesol i'w hiechyd. Maent yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn gwybod at bwy i droi os cânt eu haflonyddu'n gorfforol neu'n eiriol gan blant eraill.

Mae bron pob plentyn yn cyfranogi'n gadarnhaol mewn dysgu. Ag ystyried eu hoedran a'u hanghenion personol, mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda. Mae llawer ohonynt yn gwrtais ac yn ystyriol o deimladau plant eraill ac yn ymagweddu tuag at ei gilydd mewn ffordd ofalus. Yn ddiwahân, mae gan blant ymddiriedaeth gref yn y gofal a'r consyrn sydd gan oedolion trostynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymagweddu'n gadarnhaol tuag at brofiadau dysgu newydd. Mae ganddynt ddiddordeb yn y gweithgareddau ac maent yn gallu'n canolbwyntio'n gynyddol am gyfnodau priodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio clos, llwydda ymarferwyr i gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion a diddordebau plant o'r holl ystod gallu. Mae hyn yn galluogi pob unigolyn i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau ysgogol a hyblyg a gaiff eu darparu yn hyrwyddo ymgyfraniad pob plentyn ac yn sicrhau y cânt rôl weithredol yn eu dysgu.

Mae natur ymarferol a phenagored y profiadau dysgu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ffurfio perthynas gadarnhaol ac i feithrin synnwyr o barch a goddefgarwch tuag at ei gilydd. Mae plant yn cael eu hannog i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i archwilio eu hamgylchedd yn hyderus a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio gofalus a systematig, mae'r lleoliad yn sicrhau bod plant yn caffael y medrau llythrennedd a rhifedd angenrheidiol ar gyfer eu galluogi i fanteisio ar yr holl brofiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn ymestyn medrau plant yn ddigonol.

Mae'r defnydd cyson o Gymraeg gan ymarferwyr yn cynyddu dealltwriaeth plant o'r iaith ac yn rhoi'r hyder i ddysgwyr yr iaith i ddechrau defnyddio'r Gymraeg eu hunain. Mae darpariaeth gref ar gyfer hybu'r dimensiwn Cymreig, er enghraifft, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac ymuno yng ngweithgareddau'r Mudiad Meithrin a'r Urdd.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant a dealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu hysgogi neu eu harwain gan oedolion. Mae'r amrywiaeth eang o strategaethau addysgu a ddefnyddir, er enghraifft gwaith grŵp neu waith unigol, ynghyd â'r pwyslais sylweddol a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu eu dulliau addysgu ar gyfer hynny. Mae ymarferwyr yn fodelau iaith dda eu hunain ac yn defnyddio holi'n grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae’r ymarferwyr yn asesu’r plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau’n ofalus i fesur cynnydd pob unigolyn trwy gydol ei amser yn y lleoliad. Maent yn defnyddio deilliannau asesiadau’n effeithiol i adnabod anghenion unigol plant ac ar gyfer cynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Trwy'r ‘llyfr trysor’ sy’n cynnwys lluniau o’u plentyn ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a chyflawn am gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu.

Mae’r arfer o gynnwys rhieni yn y prosesau asesu yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o gynnydd eu plant a’r hyn y gallant ei wneud i’w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n gryf at ddatblygiad cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu’n effeithiol.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio’n gyson yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i’r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy’n iawn a’r hyn sydd ddim yn iawn. Mae’r cyfleoedd rheolaidd sydd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu, yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Er bod egwyddorion a gwerthoedd clir yn cael eu hyrwyddo'n gyson yn y lleoliad, ychydig o gyfleoedd sydd i godi ymwybyddiaeth plant o gredoau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol eraill a welir yng Nghymru.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae’r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu’n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth drwyadl ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni. Mae anghenion dysgu a chorfforol plant yn cael eu nodi’n fanwl pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. O ganlyniad, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol o safon uchel.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff plant fynediad cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Llwydda'r lleoliad i greu amgylchedd cartrefol ac ysgogol lle y gall plant fanteisio'n llawn ar eu profiadau dysgu ac i feithrin gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol tuag at ei gilydd.

Ac eithrio TGCh, mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae ymarferwyr yn defnyddio pobl ac adnoddau'r ardal leol yn bwrpasol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae staff y lleoliad yn gwneud y defnydd gorau posib o'r adeilad a'r ystafelloedd. Mae'r arddangosfeydd o waith plant yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu yn sylweddol ac yn cael eu defnyddio'n fedrus gan ymarferwyr i ysgogi diddordeb plant ac i ddathlu eu hymdrechion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cefnogi ac yn gosod sialens i bawb i wneud eu gorau. Mae'r ethos cadarnhaol sy'n treiddio trwy'r lleoliad yn sicrhau bod plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n agos iawn fel tîm ac maent yn rhannu gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthnasau. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a bod gan bob aelod staff ddealltwriaeth glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae eu parodrwydd i weithredu ar gyngor yr awdurdod lleol ac i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd, megis asesu ar gyfer dysgu, yn gryfder.

Mae rheolaeth dydd-i-ddydd y sesiynau yn drefnus. Mae gan y lleoliad bolisïau clir sy'n ddealladwy i rieni ac ymarferwyr, ac sy'n canolbwyntio ar anghenion plant. Maent yn wybodus i'r rhieni ac yn cael eu gweithredu'n llawn gan yr holl staff. Mae'r berthynas gadarnhaol gyda phlant, rhieni a staff yr ysgol gynradd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn ac yn cyfrannu'n bwrpasol i waith y lleoliad. Enghraifft nodedig o hyn yw arfer y cadeirydd o gynnal addoliad ar y cyd gyda phlant y lleoliad unwaith yr wythnos. Mae'r pwyllgor yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni trwy gylchlythyrau a chyfarfodydd yn rheolaidd ac yn darparu cefnog gref i'r arweinwyr yn eu gwaith. Mae aelodau'r pwyllgor yn sicrhau bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys ar unwaith a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella. Maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er bod hunan-arfarnu'n rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni nid oes trefniadau

cyffelyb ar gyfer gwrando ar lais a barn plant. Mae’r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol gyda’r arweinydd a’r staff yn gweithredu’n bwrpasol ar unrhyw argymhellion sy’n dilyn ei hymweliadau. Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae blaenoriaethau a ddaw i’r amlwg trwy hunan-arfarnu yn cael eu hymgorffori’n effeithiol mewn cynllun datblygu pwrpasol sy’n nodi’n glir sut y bwriedir eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth barhaus a hefyd yn nhrefniadau’r lleoliad ar gyfer cynllunio’r cwricwlwm ac asesu.

Mae’r adroddiad hunan-arfarnu ynghyd â’r cynllun gwella o ansawdd da ac yn cyfleu darlun gonest a chywir o gryfderau’r lleoliad ynghyd â’r agweddau sydd angen gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r cysylltiadau cynhyrchiol mae’r lleoliad wedi’i meithrin gyda nifer dda o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant. Mae ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng y lleoliad a’r rhieni ac mae cyfleoedd cyson iddynt fynegi barn ar waith y lleoliad. Mae’r ymarferwyr ar gael i rieni ar gychwyn a diwedd pob sesiwn ac maent yn gwneud yn siŵr bod gan rieni wybodaeth gyfredol am drefniadaeth y lleoliad a datblygiad eu plant.

Mae partneriaeth gref rhwng y lleoliad ar ysgol gynradd y dref. Mae hyn yn hwyluso trefniadau trosglwyddo plant ac yn gwneud yn siŵr bod plant yn ymgartrefu’n gyflym yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Mae aelodau’r gymuned leol yn cyfrannu’n dda at waith y lleoliad. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad wythnosol o aelod o’r gymuned sy’n cynnal sesiynau canu gyda’r plant.

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n effeithiol gyda nifer dda o wasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol i gydlynu a chyflwyno profiadau dysgu ac i sicrhau bod cymorth priodol ar gael i blant a rhieni. Mae ymweliadau rheolaidd a chyngor proffesiynol yr athrawes gefnogol yn galluogi’r arweinydd i ddiweddaru eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth broffesiynol ac arbrofi gyda blaengareddau newydd. Mae’r arweinwyr yn gweithredu’n gydwybodol ar unrhyw argymhellion sy’n dilyn yr ymweliadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff sy’n cyfrannu’n effeithiol tuag at adnabod anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr. Mae'r sesiynau hyfforddi rheolaidd sy’n cael eu cynnal gan yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau. Bu hyn o gymorth mawr i’r lleoliad wrth iddynt geisio addasu eu trefniadau asesu er mwyn cyfarfod â gofynion newydd yr awdurdod addysg.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff amser a phrofiad staff, ynghyd ag adnoddau dysgu, eu defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal a darpariaeth o ansawdd uchel dda ar gael i bob plentyn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n gyson i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd a lles plant.

O ystyried y deilliannau da a chynnydd parhaus plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |